Cynllun ar gyfer Datblygu Marchnad Lafur Ddwyieithog
papur trafod gan
Cwmni Iaith a Menter a Busnes

Rhesymeg

Yn ddiweddar daeth ***Cwmni Iaith*** (ymgynghoriaeth cynllunio iaith amlycaf Cymru) a ***Menter a Busnes*** (yr asiantaeth datblygu economaidd Cymraeg) ynghyd fel arweinwyr annibynnol mwyaf blaenllaw Cymru yn eu priod feysydd i drafod sut y gellid pontio'n fwy effeithiol rhwng datblygu economaidd a chynllunio iaith. Un o'r syniadau a ddatblygodd o'r trafodaethau hynny yw'r angen am gynllunio manwl a chyfannol ar gyfer creu gweithlu sgilgar dwyieithog yng Nghymru i gwrdd ag anghenion cynyddol cyflogwyr. Rydym yn cynnig peth o ffrwyth y trafodaethau hynny i'ch ystyriaeth yma fel ein tystiolaeth i arolwg y Pwyllgor Addysg i'r iaith Gymraeg.

Ers awdurdodi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru yn 1996, gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr angen am sgiliau iaith Cymraeg a dwyieithog yn y gweithle ar draws economi Cymru gyfan ac ym mhob sector. At hynny, gwelwyd twf a datblygiad sylweddol yn y sector gwaith iaith-gysylltiol, gyda nifer gynyddol o swyddi'n datblygu mewn meysydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg.

Bellach, wrth i'r galw am sgiliau dwyieithog gynyddu, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu fod bwlch sgiliau iaith dwyieithog yn ymddangos o fewn y gweithlu a'r darpar weithlu ar draws Cymru. Golyga hyn fod cyflogwyr yn aml yn cael anawsterau wrth geisio penodi staff digonol â sgiliau iaith priodol. Golyga hefyd nad yw nifer o gwmnïau a sefydliadau Cymru yn gweithredu yn effeithlon o fewn eu marchnadoedd penodol.

Mae angen dybryd, felly, am gynllun strategol cenedlaethol gydlynol i ymateb i'r sefyllfa hon. Byddai'n angenrheidiol i unrhyw gynllun a ddatblygir gael ei blethu'n ystyrlon gyda strategaeth farchnad lafur cenedlaethol cyffredinol i Gymru. Golyga hyn fod angen cynllun eang a chyfansawdd i ddatblygu gweithlu dwyieithog yng Nghymru. I wireddu hynny byddai'n rhaid cychwyn proses sy'n medru cyfuno sgiliau ac arbenigedd mewn:

- cynllunio iaith gorfforaethol,
- datblygu economaidd,
- addysg a hyfforddiant, ac
- ymchwil economaidd a sosio-ieithyddol.

Fel dau gwmni datblygu, amlinellwn i'ch sylw gynllun drafft o'r math o ddatblygiad y credwn a fyddai o fudd i hwyluso datblygiad gweithlu dwyieithog sgilgar yng Nghymru.

Y Cynllun

Amlinellir yma gynllun ar gyfer datblygu marchnad lafur dwyieithog yng Nghymru a fydd yn:

- anelu at wireddu potensial economaidd ac adnoddau dynol cwmnïau a sefydliadau o fewn y Gymru ddwyieithog, a

- diwallu yn effeithiol anghenion sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog cyflogwyr Cymru.

Nod

Deall a datblygu'r farchnad lafur ddwyieithog yng Nghymru er mwyn diwallu'r angen am sgiliau dwyieithog ar draws yr economi.

Dau gam y cynllun

1. Diffinio a mesur gwerth economaidd sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog ar draws sectorau economi Cymru.

2. Datblygu cynllun gweithredu cyfannol a rhagweithiol i ddiwallu anghenion sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog cyflogwyr Cymru gyfan.

1. Diffinio a mesur cyfraniad a gwerth economaidd sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog ar draws sectorau economi Cymru

Rhesymeg

Mae angen diffinio a mesur gwerth economaidd sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog ar draws sectorau economi Cymru o ganlyniad i:

- gynnydd yn y swyddi ble mae angen staff gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog ar draws economi Cymru gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat;
- twf a datblygiad sylweddol is-sector newydd ymhlith yr uchod - sef, y sector 'iaith-gysylltiol'[1];
- gwybodaeth gynyddol sydd ar gael am y galw am staff gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog o fewn sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat Cymru gyfan (o ganlyniad i waith cynllun Gorwelion, Menter a Busnes, ac i waith ymchwil a datblygu gan Gwmni Iaith).

Amcanion

- Ymchwilio i'r angen am sgiliau Cymraeg a dwyieithog gan gyflogwyr ar draws sectorau economi Cymru.
- Sefydlu dulliau mesur twf a datblygiad y galw am sgiliau Cymraeg a dwyieithog.
- Mesur cyfraniad sgiliau Cymraeg/dwyieithog i effeithiolrwydd economi Cymru.
- Adnabod a mesur cyfraddau cyflog swyddi sydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg a dwyieithog ar draws sectorau'r economi.

2. Datblygu cynllun gweithredu i ddiwallu anghenion sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog cyflogwyr Cymru

Rhesymeg

Mae angen llunio cynllun cydlynol a rhagweithiol i ddiwallu anghenion cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog cyflogwyr Cymru ym mhob sector o ganlyniad i:

- Twf yn y nifer o swyddi yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol lle mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hanfodol neu yn fanteisiol;
- Twf mewn swyddi a chyfleoedd potensial yn y sector iaith-gysylltiol newydd.

[1] Sector iaith-gysylltiol – swyddi sy'n gyfangwbl neu i raddau helaeth yn ddibynnol ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel 'deunydd crai'.

- Anawsterau cyflogwyr mewn amryw o feysydd gwaith i benodi staff gyda'r sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog priodol;

- Bwlch rhwng anghenion cyflogwyr a darpariaeth hyfforddiant sgiliau cyfathrebu Cymraeg a dwyieithog ar draws y sectorau addysg a hyfforddiant.

Amcanion

- Cloriannu ymchwil a phrosiectau sy'n bodoli eisoes yn y maes.

- Adeiladu ar y wybodaeth sy'n bod eisoes o ran adnabod anghenion cyflogwyr am gyflogi staff gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog o fewn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat ar draws Cymru gyfan.

- Adnabod swyddi ble mae prinder o ymgeiswyr gyda'r sgiliau cyfathrebu priodol (fel man cychwyn ar gyfer cynlluniau datblygu).

- Adnabod anghenion hyfforddi Cymraeg a dwyieithog holl sectorau economi Cymru.

- Parhau i bennu ystod o lefelau o ddefnydd sgiliau iaith Cymraeg a dwyieithog ar gyfer swyddi ar draws sectorau'r economi.

Amcanion y Cynllun Datblygu Marchnad Lafur Ddwyieithog

Amcanion y cynllun fyddai:

- Sicrhau fod anghenion dwyieithog y farchnad lafur yn rhan o brif ffrwd datblygu economaidd Cymru o ran gweithredu a chynaladwyedd.

- Sefydlu partneriaethau er hwyluso cynllunio strategol gynhwysfawr ym meysydd llywodraethu, datblygu economaidd, addysg a hyfforddiant.

- Datblygu dulliau casglu a chofnodi gwybodaeth am swyddi â sgiliau iaith Cymraeg/dwyieithog gan gyflogwyr Cymru.

- Datblygu dulliau casglu, dehongli a rhannu data ymhlith y sefydliadau partneriaethol.

- Diffinio lefelau sgiliau iaith sy'n gweddu anghenion swyddi penodol o fewn sectorau economi Cymru ac yn cael eu defnyddio o fewn y gwahanol sectorau addysg a hyfforddiant.

- Adnabod anghenion hyfforddiant yn y sectorau addysg uwchradd, addysg bellach, addysg ôl-16, hyfforddiant mewn swydd, a Chymraeg yn y gweithle.

Gwireddu'r cynllun datblygu marchnad lafur dwyieithog

Camau

- Sefydlu Grŵp Llywio o bartneriaid addas

- Gwneud awdit o ymchwil ac arfer da

- Adnabod anghenion ymchwil pellach

- Awgrymir y dylai'r Grŵp Llywio ddatblygu Cynllun Gweithredu a allai gynnwys y canlynol:

- ystyried argymhellion *Strategaeth Marchnad Lafur* Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru;

- sicrhau fod y Farchnad Lafur Ddwyieithog yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau marchnad lafur cyffredinol;

- gweithio mewn partneriaeth gyda'r brif ffrwd er mwyn adnabod arferion presennol mewn cyswllt â'r farchnad lafur dwyieithog;

- cydweithio gydag asiantaethau prif ffrwd er mwyn datblygu ystod o ddarpariaeth ymarferol;

- datblygu rhaglen o hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff sydd yn gweithredu yn y brif ffrwd e.e. Gyrfa Cymru, ELWa, WDA, Gwasanaeth Cyflogi ac ati;

- marchnata budd sgiliau dwyieithog.

Canlyniadau'r Cynllun

- Marchnad lafur effeithiol i gwrdd ag anghenion economi a diwylliant dwyieithog Cymru.
- Cynyddu'r dewis o waith a lleoliad gwaith i bobl ifanc trwy Gymru.
- Cynyddu effeithiolrwydd cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru.
- Cynyddu nifer yr ymgeiswyr gyda sgiliau cyfathrebu addas Cymraeg a dwyieithog yn ymgeisio am swyddi.
- Cynnydd yn y nifer o bobl ifainc sydd yn dewis cyrsiau dwyieithog ar draws y Cyfnodau Allweddol Addysg.

Wrth ystyried y camau uchod rhaid cofio nad oes angen dechrau o'r dechrau i weithredu'r broses uchod. Mae llawer o waith wedi ei ddatblygu eisoes yn y maes yma – gan Gwmni Iaith yn y sector cyhoeddus, gan amryw o asiantaethau eraill yn y maes addysg a hyfforddiant ac yn enwedig gan gynllun Gorwelion, Menter a Busnes, ar draws pob sector cyflogaeth. Mae nifer o'r darnau adeiladu yn eu lle yn barod. Eu cydlynu a'u datblygu ymhellach yw'r dasg sydd angen ei chyflawni.

Amlinelliad bras o brif nodweddion cynllun datblygu ar gyfer marchnad lafur ddwyieithog a geir yn y ddogfen hon. Dylid cysylltu â'r awduron am fanylion pellach.

Cwmni Iaith
Uned 3
Parc Busnes Aberarad
Castell Newydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9DB

01239 711668
ymhol@cwmni-iaith.com

Menter a Busnes
Parc Gwyddoniaeth
Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SA23 3AH

01970 625561
aber@menterabusnes.co.uk

14 Mehefin 2002